## RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor ac yn rhithiol drwy Zoom ar ddydd Mawrth, 21 Mawrth, 2023

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 23 Mawrth, 2023 . Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 30 Mawrth, 2023. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 31 Mawrth, 2023.

**Presennol**: Y Cynghorwyr Llinos Medi (Cadeirydd), Ieuan Williams, Carwyn Jones, Robin Williams, Gary Pritchard, Alun Roberts a Neville Evans

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, R. Llewelyn Jones, Derek Owen, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Arfon Wyn.

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Dafydd Rhys Thomas a Nicola Roberts

(10:00 y. b. tan 11.11 y. b.)

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau cofnodion drafft cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 2 Mawrth, 2023 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i** |

| | |
|---|---|
| | **diweddaru am y cyfnod Ebrill i Dachwedd, 2023 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen llaw** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 3, 2022/23**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd derbyn adroddiad monitro'r Cerdyn Sgorio am Ch3 2022/23 gan nodi'r meysydd sydd wedi gwella ynghyd â'r meysydd mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn adnabod meysydd sy'n tanberfformio o fewn y Cyngor** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Adroddiad Cynnydd: Gwelliannau ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br><br>• **Cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn cymryd sicrwydd bod y cynnydd parhaus a wnaed gan Adran y** |

| | |
|---|---|
| | **Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhesymol ac yn amserol.**<br>• **Cefnogi'r bwriad i beidio ag adrodd ar welliannau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Pwyllgor Gwaith o hyn ymlaen a bod adroddiadau yn parhau i gael eu cyflwyno i'r Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol yn y dyfodol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I fonitro gwelliannau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Moderneiddio Ysgolion Môn – Symud dyddiad gweithredu'r rhybudd statudol ar gyfer Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br>• **Cymeradwyo oedi dyddiad gweithredu'r cynnig, sef i "gynyddu capasiti Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn" i 1 Medi, 2024.**<br>• **Yn amodol ar yr uchod, bydd Swyddogion yn hysbysu'r "partïon perthnasol" o'r penderfyniad i ohirio dyddiad gweithredu'r cynnig ar gyfer Ysgol Y Graig.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Diwygio'r amserlen weithredu oherwydd y rhesymau a amlinellwyd** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI | **Dim** |

| | |
|---|---|
| ROI? | |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r Strategaeth Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo'r strategaeth ddrafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2023-2053**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Cymeradwyo Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2023-2053 yn amodol ar wneud diwygiadau bychain i'r manylion ariannol, ac**<br>• **Awdurdodi'r Aelod Portffolio Tai a'r Aelod Portffolio Cyllid i gymeradwyo Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai terfynol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn cwrdd â gofyniad Llywodraeth Cymru** |

| | |
|---|---|
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

## EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 Cais Cymhleth am Grant Cyfleusterau i'r Anabl**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo cais am Grant Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer gwaith addasu angenrheidiol fydd yn costio cyfanswm o**<br>**£122,868 sy'n golygu cymeradwyo grant dewisol gwerth £86,868 yn ychwanegol i'r grant gorfodol o hyd at £36,000.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo cais cymhleth am grant cyfleusterau i'r anabl uwchben uchafswm y grant gorfodol ac uwchben y terfyn y mae gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai mewn ymgynghoriad a'r Aelod Portffolio Tai hawl i'w gymeradwyo** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Mae'r penderfyniad wedi'i eithrio o gael ei alw i mewn oherwydd yr anfanteision y byddai oedi yn eu creu** |